OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 211

## Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016.

**Dirymiadau a datgymhwyso**

**2.**—(1) Mae'r Rheoliadau a bennir yng ngholofn gyntaf Atodlen 1 wedi eu dirymu i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob un ohonynt yn y drydedd golofn.

(2) Mae'r Rheoliadau a bennir yng ngholofn gyntaf Atodlen 2 wedi eu datgymhwyso o ran Cymru i'r graddau a bennir mewn perthynas â phob un ohonynt yn y drydedd golofn.

**Diwygiadau canlyniadol**

**3.** Mae Atodlen 3 (sy'n gwneud diwygiadau o ganlyniad i ddarpariaethau'r Ddeddf) yn cael effaith.

**Arbedion a darpariaeth drosiannol**

**4.** Mae Atodlen 4 (sy'n gwneud arbedion a darpariaeth drosiannol) yn cael effaith.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Chwefror 2016